



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Yn 2018-19 gwnaethom arolygu dwy ddeintyddfa gyffredinol, un ddeintyddfa annibynnol a gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol fel rhan o'n hadolygiad cenedlaethol o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol.

Ar y cyfan gwelsom fod cleifion ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael gofal a thriniaeth o ansawdd da. Roedd y rhyngweithio rhwng cleifion a staff yn dda, gan ddangos cwrteisi a pharch bob amser. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael cefnogaeth dda gan gydweithwyr yn y ddeintyddfa a bod y strwythurau cefnogol priodol ar waith.

Ymhlith y meysydd y gellid eu gwella roedd darparu gwybodaeth am y broses gwyno ac, mewn deintyddfa a gymerwyd drosodd gan y bwrdd iechyd yn ddiweddar, nodwyd bod angen ffurfioli'r broses o rannu a dysgu o ddigwyddiadau difrifol neu faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion.

Ein hunig arolygiad deintyddol yma yn 2018-19 oedd Yvonne Wood Dental Hygiene, sef deintyddfa annibynnol yn y Trallwng. Roedd hwn yn arolygiad gwybodaeth ac ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yn ystod ein harolygiad yn adeilad y TIMC yn The Hazels, Llandrindod roedd adborth defnyddwyr yn gadarnhaol iawn am y tîm cyfan. Roedd y staff yn cymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau gofal a thriniaeth ac roedd asesiadau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnal mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, nodwyd bod yr adeilad mewn cyflwr gwael iawn, ac roedd angen gwneud llawer o waith er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben. Nodwyd hefyd fod gwaith integredig rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn ddarniog a oedd yn effeithio ar waith y TIMC o ddydd i ddydd ac roedd angen ei wella.

Timau Iechyd Meddwl Cymunedol

Gwnaethom arolygu Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol The Hazels yn Llandrindod

- | | |
|--|---|
| ✓ Roedd adborth defnyddwyr y gwasanaeth yn gadarnhaol iawn am y tîm cyfan | ✗ Mae angen adnewyddu ac atgyweirio'r adeilad |
| ✓ Roedd y staff yn helpu i lunio cynlluniau gofal a thriniaeth | ✗ Angen gwella trefniadau i gludo defnyddwyr gwasanaeth i'r ysbyty |
| ✓ Cynhaliwyd asesiadau o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn brydlon | ✗ Gweinyddu dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl |
| ✓ Roedd y staff yn ymrwymedig i gynnig profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn yr amgylchedd gwaith anodd | ✗ Gellir gwella elfennau o ddogfennaeth gofal |
| ✓ Roedd y staff yn gallu darparu gwasanaethau arbenigol i ddefnyddwyr y gwasanaeth ac felly leihau'r amser aros i gael triniaeth | ✗ Gellid gwella'r gweithio integredig rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol |
| | ✗ Rhannu gwybodaeth |

Meddygfeydd

Gwnaethom arolygu Practis Meddygol Llanandras a Phractis Meddygol y Trallwng

- | | |
|--|--|
| ✓ Ni chyflwynwyd unrhyw lythyrau sicrwydd uniongyrchol | ✗ Angen darparu gwell gwybodaeth am y broses gwyno |
| ✓ Enghreifftiau cadarnhaol a chyfeillgar o rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion | ✗ Angen rheoli gwelliannau i'r broses apwyntiadau ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor a chlinigau rheolaidd yn amserol |
| ✓ Strwythur cefnogol i staff | ✗ Sicrhau y caiff gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau o bwys a digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch eu rhannu â phob aelod o'r staff yn y practis a'u trafod ganddynt |
| ✓ Cofnodion o safon dda yn gyffredinol | |

Deintyddfeydd

Gwnaethom arolygu un ddeintyddfa annibynnol

- ✓ Gofal diogel ac effeithiol i'w chleifion mewn amgylchedd dymunol a staff ymroddedig, cyfeillgar a phroffesiynol.
- ✓ Cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yn ôl ein hadborth
- ✓ Deintyddfa sy'n cael ei rhedeg yn dda ac sy'n bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.
- ✓ Tystiolaeth o gontractau cynnal a chadw amrywiol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.
- ✓ Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn cyd-fynd â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol.
- ✓ Gwelsom fod gan y ddeintyddfa arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.